Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Gwenffrwd**

**Ysgol Gwenffrwd**
**Stryd Chwitffordd**
**Treffynnon**
**CH8 7NJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb Gwenffrwd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Unigolion cofrestredig | Dawn Owen<br>Susanne Morris |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 05/04/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Dyma arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd llawn.

Mae plant yn dod yn gyntaf yn y lleoliad hwn. Maent yn hapus ac yn mwynhau eu hunain oherwydd eu bod yn cael eu parchu ac maent yn brysur gydag amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn dysgu sut i fod yn annibynnol ac i ryngweithio'n effeithiol.

Mae staff galluog yn gofalu am y plant yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Mae hyn yn bwysig yn ystod y pandemig presennol. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn garedig ac yn deg ac mewn ffordd y mae’r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau amrywiol i helpu plant i ddatblygu'n llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae digon o weithgareddau ac ardaloedd chwarae a dysgu i ddatblygu sgiliau'r plant. Mae'r mannau dan do ac awyr agored yn addas i blant. Mae yna ddigon o deganau a gemau, sydd mewn cyflwr da, i helpu gyda datblygiad y plant.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus am arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel dda o ofal ar gyfer y plant. Maent yn gwneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cynorthwyo tîm o staff ymroddedig a gweithgar. Mae partneriaethau llwyddiannus a chryf gyda rhieni a’r ysgol, sy’n helpu plant i deimlo’n gartrefol a’u teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Llesiant

Mae gan y plant lais ac maent yn gallu dylanwadu ar eu gofal. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, ar ôl amser byrbryd, er gwaethaf bod rhaid iddynt aros mewn grwpiau oherwydd y pandemig COVID-19, gallent ddewis o amrywiaeth o gemau neu weithgareddau bwrdd. Gallant hefyd wneud awgrymiadau ar gyfer teganau neu gemau newydd i'w prynu, sy'n arwain at fwynhau gweithgareddau newydd.

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ffurfio perthynas glòs â'r staff oherwydd bod yr un staff yn gofalu amdanynt. Maent yn hapus i fynd at staff am gymorth a sgyrsiau. Mae'r plant yn gwybod y drefn arferol ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda, megis mynd i'r toiled ac ymolchi eu dwylo.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol. Maent yn rhannu ac yn gwneud ffrindiau mewn modd sy'n briodol i gamau eu datblygiad. Er enghraifft, maent yn chwarae ar y cyd, ac yn barod i gynnwys plant eraill, gan drafod sut i osod siapiau a llythrennau magnetig. Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau pan ofynnir iddynt dacluso neu nôl eu cotiau a'u bagiau i fynd adref.

Mae plant yn ymddiddori yn ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau defnyddio gwneuthurwr pompom, adeiladu tyrau a chwarae â thŷ doliau. Maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei wneud gyda'r staff, gan ddangos lluniau y maent wedi'u tynnu a'r hyn y maent wedi'i adeiladu. Mae plant yn cael cyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain ac yn dod yn annibynnol. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau ac yn rhoi'r teganau heibio ar ôl eu defnyddio cyn cael eu byrbryd.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Gallant siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn os ydynt yn pryderu am blentyn. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol, ac maent wedi adolygu'r lleoliad a gofal yn unol â chanllawiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.
Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn plant, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Maent yn dilyn arferion glanhau effeithiol ac yn sychu byrddau rhwng gweithgareddau ac yn glanhau'n drylwyr ar ôl i'r plant fynd adref. Mae'r staff yn deall ac yn dilyn y polisi damweiniau ac yn cadw cofnodion o ddamweiniau ac yn eu rhannu â rhieni. Fodd bynnag, byddai mwy o wybodaeth wedi'i chofnodi am fân anafiadau o gymorth, megis yn union ble ar y corff yw'r anaf a sut y digwyddodd y ddamwain. Maent yn darparu byrbrydau iach, fel ystod o ffrwythau.

Mae'r staff yn ymgysylltu'n fawr iawn wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn cynorthwyo'r plant i reoli eu hymddygiad ac i hybu eu hunan-barch; maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt. Er enghraifft, pan ddangosodd plant eu lluniau, cawsant eu canmol mewn ffordd ystyrlon ac adeiladol. Mae'r staff yn gyson wrth roi canmoliaeth gadarnhaol i blant, ac maent yn esiamplau da gan eu bod yn rhyngweithio'n dda â'r plant, yn neilltuo amser ar eu cyfer ac yn siarad â nhw, ac yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywedant. Mae staff yn canmol ac yn dathlu ymddygiad da fel tacluso ac am adeiladu wal dda.  Defnyddir sticeri ar gyfer bod yn garedig, ceisio siarad Cymraeg a rhannu.

Mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd er mwyn diwallu anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn adnabod sgiliau a hoffterau'r plant yn dda. Mae'r staff yn gwybod am gryfderau, anghenion a hoffterau'r plant ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant. Er enghraifft, cynllunnir gweithgareddau crefft gan fod y plant yn mwynhau gwneud pethau. Mae gweithgareddau garddio, megis plannu tatws a blodau, wedi cael eu hyrwyddo gan aelod o staff, sydd hefyd yn gyfrifol am arddio drwy'r ysgol. Mae hyn yn dda ar gyfer llesiant y plant.

## Yr Amgylchedd

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn datblygu amgylchedd da i gyfoethogi profiadau’r plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, sy'n darparu man diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu ynddo. Maent wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i'w lleihau neu eu gwaredu. Er enghraifft, mae staff yn deall y risgiau a achosir gan y pandemig COVID-19 ac yn cymryd mesurau trylwyr sy’n cyd-fynd â'r rhai sydd ar waith yn amgylchedd yr ysgol. Mae ymarferion tân rheolaidd yn golygu bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd addas ac yn darparu amrywiaeth o fannau sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall plant chwarae ac archwilio. Maent yn sicrhau bod gan y staff yr offer i ddarparu gweithgareddau pleserus i'r plant. Mae ardal awyr agored, sy'n cynnwys iard a chae ysgol mawr.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas a phosteri a labeli Cymraeg. Mae dodrefn addas ar gyfer y plant a lle storio addas. Mae'r adnoddau, sydd yn addas i oedran y plant, mewn cyflwr da. Er enghraifft, tŷ doliau a theganau magnetig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn wybodus ac yn brofiadol o ran arferion gofal plant presennol. Mae hyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben cynhwysfawr. Roedd arsylwadau yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â'r holl staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol bob tymor ac yn flynyddol. Gofynnwyd i'r rhieni am eu barn gan ddefnyddio holiaduron. Cymerir barn y rhieni a'r plant o ddifrif a nodir cryfderau a meysydd i'w gwella yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. O ganlyniad, mae cynlluniau tymor hir ar gyfer gwelliant sy'n cynnwys cynllunio gweithgareddau'n well.

Mae'r broses o recriwtio staff yn gadarn. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl wiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un yn gwybod ei rolau a'i gyfrifoldebau ac yn cymryd yr awenau i arwain y plant yn briodol.  Canlyniad hyn yw bod y plant yn mwynhau'r gofal a roddir gan staff hamddenol a brwdfrydig.

Mae’r berthynas â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant, gan fod rhieni yn gallu dweud wrth staff beth mae eu plant wedi mwynhau yn arbennig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yw’r bartneriaeth gyda'r rhieni yn eu barn nhw. Gall rhieni siarad â staff ynglŷn â gofal eu plentyn pan fyddant yn dod â nhw neu'n eu casglu ac mae'r lleoliad yn defnyddio dulliau electronig i hysbysu rhieni yn rheolaidd. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf gyda’r ysgol gan ei fod yn defnyddio safle’r ysgol ac mae’r arweinwyr a’r staff yn gweithio yn yr ysgol ac yn adnabod y plant a’u teuluoedd yn dda.

## Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1.** Gwella'r ffurflen ddamweiniau trwy gynnwys mwy o fanylion am ba ran o’r corff mae anafiadau’n digwydd a beth oedd amgylchiadau’r anafiad.